Adolygiad o Ddatblygiad Un Blaned yng Nghymru 2010-2022

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut mae Datblygiadau Un Blaned (DUB) yn helpu i gyrraedd y 7 nod llesiant ar gyfer Cymru, gan gynnwys cymunedau iach a chydnerth, y Gymraeg yn ffynnu, a busnesau carbon isel arloesol.

Ynddo, nodir llwyddiannau a heriau allweddol y polisi cynllunio arloesol hwn yng Nghymru a gwneir argymhellion ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Wedi'i ysgrifennu gan Gyngor Un Blaned gan ddefnyddio data a gasglwyd o 95% o'r safleoedd DUB presennol. I'w gyhoeddi ym mis Medi 2022.

Mae DUB yn arddangos y ffordd fwyaf cynaliadwy o fyw yng Nghymru

Mae esiamplau'n arwain y ffordd i Gymru fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni ei huchelgeisiau o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Cyngor Un Blaned yn gorff gwirfoddol annibynnol sy'n galluogi ac yn hyrwyddo Datblygiad Un Blaned. Mae'r polisi cynllunio blaengar hwn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, yn cynnig ffordd wirioneddol fforddiadwy a chynaliadwy i bobl fyw a gweithio ar eu tir eu hunain, gan ddwyn budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Cyswllt: **info@oneplanetcouncil.org.uk**